**Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru**
**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2019**

# COFNODION CYFARFOD GRŴP LLYWIO BUDDSODDI RHANBARTHOL YNG NGHYMRU

**Dyddiad:** 17 Rhagfyr 2019

**Amser:** 10:30 – 13:30

**Lleoliad:** Swyddfa Llywodraeth Cymru, Merthyr Tudful, CF48 1UZ

## 1. Croeso a Chyflwyniad

1) Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i bumed cyfarfod Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru. Mae rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol yn Atodiad A.

## 2. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

2) Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau a oedd ganddynt unrhyw sylwadau i'w gwneud ar gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2019.

3) Cafwyd cytundeb yr aelodau ar y cofnodion, a fyddai'n cael eu cyhoeddi ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru.

4) Cyfeiriodd y Cadeirydd yr aelodau at y camau gweithredu, gyda'r diweddariadau canlynol wedi'u darparu mewn perthynas â'r camau gweithredu 'agored':

   a) Bydd swyddogion yn cael cyngor ar sut y gall y model busnes 5 achos gael ei gymhwyso mewn ffordd gymesur os caiff ei ddefnyddio o fewn rhaglen buddsoddi rhanbarthol yn y dyfodol. Bydd y gwaith hwn yn mynd rhagddo fel rhan o waith yr is-grŵp Gweithredu.

   b) Mae cynllun ymgysylltu drafft ar gyfer y cyfnod ymgynghori wedi'i gyflwyno i aelodau, a bydd yn cael ei drafod fel rhan o'r agenda am y dydd.

5) Rhoddodd y Cadeirydd sylw hefyd i'r ddogfen "Crynodeb o sylwadau gan aelodau mewn perthynas â chynigion Llywodraeth Cymru a chamau gweithredu o ganlyniad iddynt". Roedd yr aelodau yn fodlon â'r ddogfen gryno, ac ni chynigiwyd unrhyw welliannau nac ychwanegiadau.

## 3. Diweddariad cyffredinol

6) Gwahoddodd y Cadeirydd Peter Ryland (PR) i roi'r newyddion diweddaraf i'r aelodau am faterion yn ymwneud â Brexit a Chronfa Ffyniant Gyffredin arfaethedig y DU (UKSPF), ac unrhyw oblygiadau ar waith y Grŵp Llywio.

7) Roedd y prif fater yn ymwneud â thrafodaeth ynghylch ethol Llywodraeth newydd i'r DU. Nodwyd yma y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio cael cyfarfodydd gyda Llywodraeth newydd y DU i atgyfnerthu ein safbwyntiau hirdymor o ran 'dim ceiniog yn llai, a dim colli grymoedd', ynghyd ag adrodd ar y gwaith arwyddocaol sy'n cael ei wneud gan randdeiliaid yng Nghymru i ddatblygu model newydd ar gyfer buddsoddi rhanbarthol sy'n adeiladu ar arfer gorau ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer gwaith mwy cydgysylltiedig a mwy o benderfyniadau o fewn y rhanbarthau.

8) Yn sgil Brexit ac ymrwymiad Gweinidogion i bresenoldeb rhyngwladol cryfach i Gymru, rhan allweddol o'n gwaith i'r dyfodol fydd chwilio am fwy o gyfleoedd am waith trawsffiniol a rhyngwladol yn ein buddsoddiadau.

## 4. Cyflwyniad: *Y diweddaraf am Brosiect yr OECD*

9) Ar ddiwedd mis Tachwedd, cynhaliodd yr OECD ymweliad astudio wythnos o hyd â Chymru i gael adborth pellach gan y Llywodraeth a rhanddeiliaid i lywio eu gwaith ac ymestyn eu hymgysylltiad. Roedd hyn yn cynnwys ymweliad â Rhanbarth y Canolbarth a'r De-orllewin (Llandrindod a Chaerfyrddin), a seminar arfer gorau yng Nghaerdydd a fynychwyd gan oddeutu 100 o randdeiliaid, gan gynnwys aelodau o'r Grŵp Llywio ac arbenigwyr rhyngwladol ym maes llywodraethu a buddsoddi rhanbarthol.

10) Gwahoddodd y Cadeirydd yr Athro Kevin Morgan, rhan o dîm adolygu'r OECD, i roi trosolwg o'r ymweliad. Nododd yr Athro Morgan fod yr OECD wedi cyfarfod â phob math o randdeiliaid yn rhanbarth y Canolbarth a'r De-orllewin, gan gynnwys: Aelodau Etholedig, swyddogion awdurdodau lleol, cynrychiolwyr o Fwrdd Strategaeth Economaidd Bargen Ddinesig Bae Abertawe a Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, busnesau lleol, cynrychiolwyr ffermwyr, aelodau Bwrdd y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol a chynrychiolwyr y tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

11) Cafwyd trafodaeth bellach ynghylch datblygiadau gwaith rhanbarthol newydd, gan gynnwys Cydbwyllgorau Corfforaethol a Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol a chysylltiadau rhwng rhanddeiliaid a llywodraeth.

12) Gwnaeth y Grŵp Llywio y sylwadau canlynol:

a) pwysigrwydd integreiddio'r adborth a gasglwyd gan yr OECD hyd yma yn y gwaith sy'n cael ei wneud gan randdeiliaid i ddrafftio'r ddogfen ymgynghori.
b) pwysigrwydd defnyddio a datblygu cysylltiadau ag awdurdodau datganoledig eraill.
c) yr angen i ystyried yr amrywiaeth o gysylltiadau rhanddeiliaid yng Nghymru.

**5. Trafodaeth:** ***Y diweddaraf am y Prosiect, gyda Sesiwn Grŵp a Chyfarfod Llawn ar Amlinelliad o'r Ymgynghoriad i ddilyn***

13) Gwahoddodd y Cadeirydd Rachel Garside Jones (RGJ), y Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi a Buddsoddi Rhanbarthol, i roi'r newyddion diweddaraf am y gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu'r ddogfen ymgynghori gyda chymorth yr is-grwpiau a'r grwpiau drafftio gwirfoddolwyr.

14) Nodwyd bod mwy o waith i'w wneud, ond mae rhannu amlinelliad cynnar o'r ymgynghoriad yn gyfle i'r Grŵp Llywio roi adborth fel y gall swyddogion weithio ar ddatblygu'r ddogfen dros yr wythnosau i ddod. Rhannwyd y Grŵp Llywio yn grwpiau i ystyried amlinelliad yr ymgynghoriad, gan gynnwys materion yn ymwneud ag arddull a chynnwys, y nifer a'r math o gwestiynau ymgynghori, amcanion strategol y buddsoddi a'r cymysgedd o ddulliau cyflenwi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

15) Daeth y Grŵp Llywio ynghyd unwaith eto am sesiwn Cyfarfod Llawn i rannu a chrynhoi safbwyntiau. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd gan aelodau'r Grŵp Llywio:

a) Ni ddylem fod ofn bod yn fwy hyderus yn ein cynnig ac amlinellu ein huchelgais, ein gweledigaeth a'n cyfleoedd yn fwy clir.
b) Angen nodi'n fwy clir sut y byddwn yn wahanol yn y dyfodol – beth fydd yn newid.
c) Ceisio gwneud y drafft yn fwy clir a phenodol a rhoi mwy o ffocws iddo.
d) Cynnwys enghreifftiau a chynigion ar gyfer y dyfodol lle bo hynny'n bosibl, gan gynnwys ar yr opsiynau ar gyfer cyflenwi ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.
e) Angen lleihau nifer y cwestiynau yn yr ymgynghoriad i'w wneud yn fwy hygyrch i ymatebwyr.
f) Dylai'r iaith fod yn symlach i'w wneud yn fwy addas i gynulleidfa gyffredinol, a dylai termau gael eu diffinio'n glir lle mae ganddynt ystyr sy'n effeithio ar sut y bydd y gronfa'n gweithredu.

Mae mwy o fanylion am y drafodaeth yn Atodiad B

16) Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu hadborth a nododd y gofynnir i'r Grŵp Llywio gyfarfod ddechrau mis Chwefror i ystyried fersiwn newydd o'r ddogfen ymgynghori cyn iddi gael ei dosbarthu i Weinidogion.

**6.** ***Papur: Ymgysylltu***

17) Gwahoddodd y Cadeirydd Alison Sandford, y Pennaeth Gwaith Partneriaeth, i ddarparu mwy o fanylion am y mecanweithiau a'r cerrig milltir ar gyfer ymgysylltu â chynulleidfaoedd fel rhan o'r ymgynghoriad, yn dilyn cam gweithredu o gyfarfod mis Gorffennaf y Grŵp Llywio. Nodwyd bod y papur drafft 'Cynllun Ymgysylltu Chwe Mis Drafft' wedi'i rannu ag aelodau cyn y cyfarfod.

18) Crynodeb o'r pwyntiau allweddol a wnaed:

a) Trefnwyd datganiad llafar gan y Gweinidog ar 14 Ionawr ar y cynnydd mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda rhanddeiliaid i ddatblygu trefniadau ar gyfer cyflwyno cronfeydd newydd yn lle cronfeydd yr UE ar ôl Brexit.
b) Mae grŵp bach wedi'i sefydlu i drafod ymgysylltu, gyda'u sylwadau wedi'u cynnwys yn ein gwaith ymgysylltu a chyfathrebu.
c) Bydd y cyfnod ymgynghori yn para 12 wythnos, gyda dogfen ymgynghori yn cael ei chyhoeddi ar-lein a'i chefnogi gan ddigwyddiadau ymgynghori ym mhob un o'r rhanbarthau. Bydd dogfen ffeithiau sylfaenol yn cael ei chynhyrchu hefyd i ymgysylltu â chynulleidfaoedd ehangach a'r rhai nad ydynt eisiau gormod o fanylion technegol.
d) Yn ogystal â'r digwyddiadau ymgynghori â rhanddeiliaid, mae digwyddiadau pwrpasol yn cael eu trefnu i gael adborth gan fusnesau, dinasyddion, pobl ifanc a phobl â nodweddion gwarchodedig. Byddwn hefyd yn annog rhanddeiliaid i drefnu digwyddiadau gyda'r sectorau y maent yn eu cynrychioli, ac mae'r rhain yn cael eu trafod gyda CLILC, Prifysgolion Cymru a TUC Cymru, er enghraifft.
e) Mae rhai cerrig milltir ar gyfer ymgysylltu wedi'u mapio yn y papur.

19) Gwnaeth y Grŵp Llywio y sylwadau canlynol:

a) Mae angen i negeseuon fod yn gyson ac yn addas i'r diben.
b) Mae'n bwysig i sectorau gyfrannu trwy ymgysylltu â'u rhanddeiliaid eu hunain ar y maes pwnc hwn ar gyfer Cymru.
c) Mae'n bwysig i swyddogion ymgysylltu ag awdurdodau lleol a thimau ymgysylltu rhanbarthol yn ystod y cyfnod ymgynghori, gan y byddent yn gallu helpu i ymgysylltu â dinasyddion ehangach hefyd.
d) Croesewir y ffaith bod pobl â nodweddion gwarchodedig a phobl ifanc yn cael eu hystyried yn rhan o'r cynlluniau ymgysylltu a gyflwynwyd.
e) Nodwyd cynigion gan yr aelodau i helpu i ymgysylltu â busnesau a chymunedau gwledig.
f) Byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r Grŵp Llywio dderbyn cyfres arall o negeseuon allweddol fel y gellir cyfathrebu'r rhain i randdeiliaid.

***Cam gweithredu – Cyfres o negeseuon allweddol i'w dosbarthu i'r Grŵp Llywio i'w cyfathrebu i randdeiliaid***

## 7. Cyfarfodydd yn y Dyfodol

20) Cynhelir cyfarfod nesaf y Grŵp Llywio ar 5 Chwefror i ystyried fersiwn newydd o'r ddogfen ymgynghori.

***Cam gweithredu – Yr Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu nodyn dyddiadur ar gyfer cyfarfod 5 Chwefror 2020***

**8. Unrhyw fater arall**

21) Ni chododd unrhyw fater arall.

**22)** Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu sylwadau gwerthfawr ar yr amlinelliad o'r ymgynghoriad a gyflwynwyd fel rhan o'r cyfarfod. Nododd hefyd fod bron i flwyddyn ers sefydlu'r Grŵp Llywio a bod y Grŵp wedi cynnal pum cyfarfod yn ystod y cyfnod hwnnw, gyda phob un ohonynt yn hynod gynhyrchiol o ran sbarduno'r gwaith hwn a darparu cyngor i Weinidogion ar sut y gellid llywio dyfodol buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru.

## 23) ATODIAD A

## RHESTR O'R RHAI A OEDD YN BRESENNOL

**Cadeirydd: Huw Irranca-Davies AC**

| Sefydliad | Enw a rôl |
|---|---|
| Yr Athro Kevin Morgan (annibynnol) | Yr Athro Kevin Morgan, Llywodraethu a Datblygu, Prifysgol Caerdydd |
| Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | Alyson Thomas, Cyfarwyddwr Polisi a Chyllid |
| Prifysgolion Cymru | Amanda Wilkinson, Cyfarwyddwr |
| Grahame Guilford (annibynnol) | Perchennog, Grahame Guilford and Company Ltd |
| Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Hannah Wharf, Pennaeth Materion Allanol |
| Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI) yng Nghymru | Nick Speed, British Telecom |
| Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB) Cymru | Ashley Rogers, Cyfarwyddwr, Gill and Shaw (bore yn unig) |
| Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector | Judith Stone, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygu'r Sector |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) | Lowri Gwilym, Rheolwr Tîm, Ewrop ac Adfywio |
| Partneriaeth y De-ddwyrain | Nicola Somerville, Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (ar ran Kelly Beirne, Cyfarwyddwr) |
| Partneriaeth y De-orllewin | Phil Holmes, Swyddog Adfywio'r Cyngor |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Rhian Jardine |
| Canolfan Cydweithredol Cymru | Derek Walker, Prif Weithredwr, Canolfan Cydweithredol Cymru |

**Y rhai a oedd yn bresennol o Lywodraeth Cymru**

| Enw | Rôl ac Adran |
|---|---|
| Peter Ryland | Cyfarwyddwr, WEFO |
| Rachel Garside-Jones | Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Rhanbarthol, WEFO |

| | |
|---|---|
| Gwenllian Roberts | Prif Swyddog Rhanbarthol ar gyfer y Gogledd, Busnes a Rhanbarthau, ESNR |
| Alison Sandford | Pennaeth Gwaith Partneriaeth, Buddsoddi Rhanbarthol, WEFO |
| Tracey Welland | Pennaeth Gweithredu Strategol, Buddsoddi Rhanbarthol, WEFO |
| Sheilah Seymour | Pennaeth Ymchwil a Dadansoddi, Buddsoddi Rhanbarthol, WEFO |
| Anton Orzel | Pennaeth Polisi Buddsoddi Rhanbarthol, WEFO |
| Geraint Green | Pennaeth Rheoli Rhaglenni, WEFO |
| Claire Rundle | Ymgysylltu, Buddsoddi Rhanbarthol, WEFO |
| John Hughes | Pennaeth Buddsoddi Rhanbarthol y Gogledd, WEFO |
| Huw Morris | Cyfarwyddwr, SHELL |
| Sarah Govier | Pennaeth Polisi Gwariant Cyhoeddus, Y Trysorlys |
| Chriss O'Connell | Pennaeth Themâu Trawsbynciol, WEFO |
| David Rosser | Prif Swyddog Rhanbarthol ar gyfer y De, Busnes a Rhanbarthau, ESNR |
| Tom Taylor | Is-adran Datblygu Gwledig, ESNR |

**Ymddiheuriadau a dderbyniwyd**

| **Sefydliad** | **Enw a Rôl** |
|---|---|
| Colegau Cymru | Iestyn Davies, Prif Weithredwr |
| Undeb Llafur | Martin Mansfield, Ysgrifennydd Cyffredinol, TUC Cymru<br>Nisreen Mansour, Swyddog Polisi, TUC Cymru |
| Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol | Yr Athro Rachel Ashworth, Deon a Phennaeth Ysgol Fusnes Caerdydd, Prifysgol Caerdydd |
| Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol | Paul Maliphant |
| Partneriaeth y De-orllewin | Y Cynghorydd Rob Stewart (De-orllewin – Abertawe)<br>Y Cynghorydd David Simpson (De-orllewin – Sir Benfro)<br>Y Cynghorydd Emlyn Dole (De-orllewin – Sir Gâr) |
| Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector | Phil Fiander, Dirprwy Brif Weithredwr, WCVA |
| Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn |

| | |
|---|---|
| Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru | Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd Cyngor Ceredigion |
| Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru | Y Cynghorydd Rosemary Harris, Arweinydd Cyngor Powys |
| Sector Addysg Bellach | Lisa Thomas, Pennaeth Coleg Merthyr Tudful |
| Partneriaeth y De-ddwyrain | Kelly Beirne, Cyfarwyddwr, Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu |
| Llywodraeth Cymru | Marcella Maxwell, Dirprwy Gyfarwyddwr, Strategaeth Economaidd, ESNR |

**ATODIAD B**

**Sesiwn adborth 17 Rhagfyr ar yr amlinelliad drafft o'r Ymgynghoriad**

Rhoddodd y Grŵp Llywio adborth ar bob un o'r trafodaethau grŵp ar yr amlinelliad drafft o'r Ymgynghoriad. Cafodd yr amlinelliad drafft dderbyniad gwresog, gyda'r aelodau yn gwneud y sylwadau canlynol i helpu i lywio'r ddogfen ymhellach dros yr wythnosau i ddod.

***Ar strwythur a dull fframio a chyflwyno'r hyn sydd yn y ddogfen:***

- Mae angen i'r ddogfen gael ei chyflwyno mewn ffordd fwyaf addas i'r gynulleidfa fwriadedig. Ar hyn o bryd, mae gormod o fanylion technegol ar gyfer cynulleidfa gyffredinol a chynulleidfa sy'n gynrychiadol o drawsdoriad o gymdeithas, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig. Er mwyn ymgysylltu'n well â chynulleidfa fwy cyffredinol, roedd hi'n bwysig mynd ati ar unwaith i nodi'n glir beth fydd yn wahanol a bod y nodau ar gyfer effeithiau rhanbarthol tymor hir, a defnyddio iaith syml i grynhoi diben ac amcanion y gronfa hon. Trwy wneud hynny, gallai fod cyfle gwych i gyd-gynhyrchu yn uniongyrchol gyda chymunedau.
- O ran beth fydd yn wahanol, byddwch yn benodol: esboniwch ystyr rhanbarthiaeth yng nghyd-destun Cymru a sut y bydd y system (e.e. monitro a gwerthuso, ac adeiladu rhaglenni) yn wahanol er mwyn sicrhau canlyniadau tymor hir. Dangoswch sut y bydd hyn yn wahanol i raglenni'r UE. Dylai'r gwahaniaeth go iawn rydym yn ceisio ei gyflawni fod yn brif linyn trwy'r ddogfen gyfan. Dylai'r ddogfen ddatblygu ymdeimlad o sut y gall un sector neu faes weithio gydag un arall i wella canlyniadau a throsoledd.
- Dylem fod yn gadarn ynglŷn â'r gwersi a ddysgwyd hyd yma a'r llwyddiannau sydd eisoes wedi'u cyflawni yn sgil buddsoddi yng nghronfa strwythurol Cymru, ynghyd â'r ffaith bod gan Gymru wahanol anghenion a chyfleoedd i ranbarthau eraill yn y DU.
- Bydd mwy o fanylion penodol, o ran dangos sut beth fydd y mecanweithiau cyflenwi ac ariannu yn ymarferol, yn ddefnyddiol ar gyfer yr ymgynghoriad. Mae ymagwedd ronynnog yn ddefnyddiol i bobl sy'n gwneud penderfyniadau – a bydd hyn yn helpu i ddangos bod cynnig clir a manwl eisoes yn cael ei ddatblygu yng Nghymru gyda rhanddeiliaid.
- Mae gormod o gwestiynau – dylai'r rhain gael eu cywasgu ar gyfer ymgynghoriad cyffredinol.
- Dylai fod cyfle i bobl gyfrannu rheolau'r UE sydd wedi gweithio iddynt neu sydd heb weithio iddynt yn ymarferol a beth sydd wedi gweithio neu sydd heb weithio yn eu hardaloedd.

***O ran meysydd â blaenoriaeth ac amcanion strategol:***

- Mae angen i'r meysydd â blaenoriaeth a'r amcanion strategol amlinellu yn gliriach eu damcaniaeth newid. Trwy wneud hynny, dylai fod mwy o uchelgais a dyhead yn yr hyn rydym yn ceisio ei gyflawni – a dylem gysylltu'r mesurau llwyddiant yn fwy uniongyrchol â'r hyn rydym yn ceisio ei newid, a'r hyn y

bydd yn ei olygu yn ymarferol i bobl, yn enwedig o ran yr allbynnau cymdeithasol, cydraddoldeb ac amgylcheddol, ochr yn ochr â'r allbynnau economaidd.

- Nid yw diffiniadau o dermau yn glir ym mhob achos – mae hyn yn rhannol oherwydd diffyg iaith syml ac yn rhannol oherwydd bwriad, er enghraifft, beth yn union yw ystyr "cymunedau agored i niwed".
- Dylai'r amcanion fod yn fwy addas i'r dyfodol, gan amlygu arloesedd a thechnolegau trawsnewidiol neu aflonyddgar, a grymuso cyfranogwyr y gronfa i ymgysylltu â gwaith sganio'r gorwel.
- Gall adnewyddu cymunedol gael ei sbarduno gan dai. Mae busnesau sydd â'u gwreiddiau yng Nghymru fel rhan o'r economi sylfaenol yn dda, ond mae angen sicrhau bod cwmnïau sy'n croesi ein ffiniau yn cael eu cynnwys hefyd, yn enwedig busnesau mwy o faint.

***Ar y strwythur llywodraethu a chyflenwi a ddisgrifir yn yr amlinelliad drafft:***

- Mae angen mwy o eglurder ynghylch y strwythurau bwriadedig ac ar ba lefel y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud - a yw "ariannu'n genedlaethol, cynllunio'n rhanbarthol a chyflenwi yn lleol" yn fan cychwyn da? Byddai enghreifftiau o ba swyddogaethau sydd ar ba lefelau yn ddefnyddiol; er enghraifft, ar gyfer caffael, mae dimensiwn cydgysylltu cenedlaethol ond cymhwysiad rhanbarthol yn werthfawr. Yma, gall rhaglen Ysgolion yr 21$^{ain}$ Ganrif fod yn enghraifft dda o reolaeth genedlaethol ar gyfer cyflenwi gan awdurdod lleol.
- Mae angen i'r strwythur llywodraethu ei hun fod yn addas i'r dyfodol – o ran disgrifio'r pontio o fis Ionawr 2021 i gyfranwyr rhanbarthol cwbl gymwys y disgwylir iddynt ddod i'r adwy.
- Mae rhanbarthiaeth yn beth cadarnhaol a dylid amlygu hyn – gan nodi'n glir fod ffiniau mandyllog yn hollbwysig i economïau llwyddiannus. Mae'r newid o gyd-destun yr UE yn golygu y bydd rhanbarthau yn gallu cydweithredu mewn ffyrdd newydd.
- Byddai disgrifiad o'r hyn rydym eisiau ei gadw o raglen yr UE a'r hyn nad ydym eisiau ei gadw yn ddefnyddiol – wedi'u cyflwyno ochr yn ochr efallai.